

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Ebrill 2018

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, John D Jones, Ffuon Williams, Maria Roberts, Cyngorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Ieuan Jones, Einion Edwards, Guto Jones,

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed Fawrth 2017.

[1] Arfon Hughes Grŵp Cynefin

Croesawyd Arfon Hughes i'r cyfarfod a chafwyd amlinelliad o'r sefyllfa bresennol ynglŷn â gosod tai/byngalos gwag sydd yn berchen i Gartrefi Conwy. Eglurodd hefyd bod posibilrwydd i ddatblygu'r safle ar gyfer y domen halen ar gyfer tai fforddiadwy neu unedau diwydiannol.

Bwriedir i gynnal diwrnod agored i drafod syniadau ayb yn ystod mis Mai.

Materion yn Codi

[1.1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.2] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd y wybodaeth ynglŷn â grantiau gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ond am fod y llwybr o dan ofalaeth Cyngor BS Conwy eglurodd y clerc ei fod yn amheus a fyddai grant ar gael.

[1.3] Diffibriliwr/Glasfryn/ Llythyr Elinor Ellis

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Elinor Ellis yn gwneud ymholiadau fel a ganlyn

[a] Pam bod pobl Glasfryn yn gorfod talu, a phobol o Cerrig ddim. Ydi etholwyr eraill wedi gorfod cyfrannu ayb.

[e] Digon hawdd cael diffibilrwydd ond lle mae'r speed limit.

Y clerc i anfon ateb yn esbonio'r sefyllfa.

[1.4] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys

Dyweddodd y clerc ei fod yn disgwyl gair gan y cwmni ar gyfer y trefniadau.

[1.5] Llwybr Maes Aled

Nodwyd yn siomedig nad oedd y llwybr wedi ei lanhau, y clerc i atgoffa Haydn Roberts ynglŷn â'r mater

[1.6] Llwybr gyferbyn a'r Ysgol i Ffordd Cefn Brith

Nodwyd ateb gan Darren Millar AC yn cyfeirio at grantiau.

[1.7] Baner Bro Hiraethog

Deallwyd nad oedd gwrthwynebiad i osod y faner yn yr ystafell snwcer.

[1.8] Strategaeth Datblygu Hiraethog

Penderfynwyd ei drafod eto yn y cyfarfod nesaf

## Y brif Agenda

### [1.9] Cyfrifon

- [a] Cymeradwywyd cyfrifon 1af Ebrill 2017 - 31 Fawrth 2018 a ddisbarthwyd i'r aelodau.
- [b] Cymeradawyd y Ffurflen Flynyddol 1af Ebril 2017 – 31ain Fawrth 2018.

### [2] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol;

- [1] Nid yw'r Ffurflen Flynyddol 2016/17 wedi ei gosod ar safle'r we'r Cyngor. Y clerc i drefnu fod y ffurflen yn cael ei gosod .
- [2] Fe brynwyd gabinet ar gyfer y diffibriliwr gan y Cyngor ond nid i'w wedi ei gynnwys ar gofrestr eiddo'r Cyngor. Dywedodd y clerc nad yw'r offer yn berchen i'r Cyngor a bod y gymuned wedi cyfrannu tuag at y gost.
- [3] Mae Cyfraith Gwarchod Data yn newid ar y 25ain Fai 2018, ac mae'n ofynnol i'r Cyngor ddilyn arweiniad Unllais Cymru ar y mater.

### [2] Fferm Wynt Clocaenog

Nodwyd y wybodaeth ganlynol;

- [a] Symudiadau ar y safle Diwedd Mawrth 2018
- [b] Tywallt sylfeini'r tyrbinau - Dechrau Gorffennaf 2018
- [c] Cydrannau'r tyrbinau yn dechrau cyrraedd - Ionawr 2019
- [d] Codi'r tyrbinau cyntaf Ebrill 2019
- [e] Prif waith adeiladu sifil yn gorffen – Ebrill 2019

### [2.1] Arolwg Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Conwy

Nodwyd bod y Comisiwn yn cynnig cyfuno Cymunedau Cerrig-y-Drudion, Llanfihangel, Llangwm, a Phentrefoelas i ffurfio Ward etholiadol gyda 1,411 o etholwyr gyda'r enw Uwch Aled.

### [2.2] Cattle Grid Ffordd Brenig

Deallwyd trwy'r Cyng Peter Lewis fod bwriad gan Sir Ddinbych i adnewyddu'r cattle grid. Y clerc i wneud ymholiad a oedd angen adnewyddu yn hytrach na llenwi'r bwloch a fuasai'n llawer rhatach, gan nad oedd bellach ei angen .

Cadeirydd \_\_\_\_\_